**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol**
**Minister for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

At: Cadeiryddion Partneriaethau Strategol

24 Mawrth 2021

Annwyl Gadeiryddion

Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i'r rhai ohonoch a ymunodd â'r cyfarfod gyda mi a'm cydweithwyr Gweinidogol yn gynharach yn yr wythnos i drafod sut y gallwn ddatblygu rôl y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Roedd yn gyfarfod gwerthfawr a chraff. Trueni na fuasem wedi cyfarfod yn gynt a gweld y gwerth gwirioneddol mewn cynnal cyfarfodydd rheolaidd rhwng Gweinidogion a chadeiryddion partneriaethau strategol wrth symud ymlaen.

Yn ystod y cyfarfod hwnnw, trafodwyd pa mor gymhleth yw tirwedd y partneriaethau a'r Adolygiad o Bartneriaethau Strategol. Fel y nodwyd gennych, yr her yw peidio â threfnu gormod o gyfarfodydd ond caniatáu cymaint o ffocws â phosibl ar faterion lleol a phenodol. Yn yr adolygiad, gwnaed nifer o argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru a phartneriaethau i ad-drefnu a symleiddio tirwedd y partneriaethau. Un o'r prif agweddau a ddeilliodd o'r cyfarfod oedd mai'r ateb gorau ar gyfer symleiddio partneriaethau yw beth sy'n gweithio orau yn lleol, yn seiliedig ar flaenoriaethau lleol a chydberthnasau presennol.

Ar ôl edrych ar yr argymhellion, hoffwn gadarnhau bod gan yr holl bartneriaethau yr hyblygrwydd i adolygu eu trefniadau a'u cydweddiad eu hunain, a rhoi trefniant ar waith sy'n gwneud y mwyaf o synnwyr i'r amgylchiadau lleol. Gall y trefniadau hyn fod yn rhai ffurfiol neu'n rhai anffurfiol, a gall yr hyblygrwydd gynnwys rhannu adnoddau rhwng byrddau, cyfarfodydd ar y cyd, rhannu canlyniadau ac hyd yn oed rhyw fath o uno. Yr unig gyfyngiad yw bod yn rhaid i bartneriaethau barhau i fodloni'r gofynion presennol.

Gwn fod nifer o ardaloedd lleol eisoes wedi edrych ar sut y mae partneriaethau yn eu hardal yn cydweithio. Byddwn yn hapus i ddarparu adnodd i hwyluso trafodaethau rhwng unrhyw bartneriaethau sy'n dymuno ystyried sut y gallant symleiddio eu gwaith partneriaeth. Bydd fy swyddogion yn hapus i helpu, a gallwch gysylltu drwy LGPartnerships@llyw.cymru.

Yn yr adolygiad, argymhellwyd hefyd fod partneriaethau yn ymrwymo i ddatblygu'r bwrdd, ac yn buddsoddi ynddo. Un o brif ganfyddiadau'r adroddiad oedd bod cydberthnasau yn fwy pwerus na strwythurau wrth gefnogi diwylliannau o gydweithio.

Yn yr adolygiad, nodwyd hefyd mai prin oedd dealltwriaeth dinasyddion o'r partneriaethau a'r effaith maent yn ei chael. Argymhellwyd bod pob partneriaeth yn sicrhau bod gwybodaeth sylfaenol ar gael ar-lein yn amlinellu cylch gorchwyl, gweledigaeth, aelodau, a chynnydd y bartneriaeth honno, a sut y gall pobl a chymunedau fod yn rhan ohoni. Bydd

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

nifer ohonoch eisoes yn gwneud hyn. Dylid parhau i adolygu’r rhain i sicrhau eu bod yn cael eu diweddaru.

Rwy’n eich annog yn gryf i ystyried yr argymhellion a nodir yn yr adolygiad yn fanwl a rhannu eich cynlluniau am sut rydych yn bwriadu eu datblygu gyda phartneriaethau eraill. Bydd fy swyddogion yn hapus i helpu gyda hyn.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru fydd ystyried gweddill yr argymhellion, ac rwyf wedi gofyn i’m swyddogion barhau i roi’r wybodaeth ddiweddaraf i chi ynghylch hyn.

Yn gywir



**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government